HARLECH

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd

Argraffiad

Argraffiad: Drafft Ymgynghoriad Cyhoeddus

Chambers Conservation Ltd
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239
Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, HighStreet, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth.

1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut i Ddefnyddio'r Ddogfen Hon
- 1.2 Golwg Gyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig
3.0 Llinell Amser Hanesyddol
4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Golwg Gyffredinol
- 5.2 Ardaloedd Cymeriad
- 5.3 Deunyddiau
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylebau ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)
8.0 Asedau Dynodedig Eraill
9.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB

2.0 Deall y Materion
- 2.1 Cyflwr
- 2.2 Adeiladau mewn Perygl

3.0 Golwg Gyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB

4.0 Rheolaeth Gadarnhaol
- 4.1 Asesiad o'r Ffiniau
- 4.2 Diogelwch Deddfwriaeth
- 4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
- 4.4 Cynaliadwyedd
- 4.5 Bioamrywiaeth

5.0 Ymgynghoriad

Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen yr Arfarniad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd gyda'r ddogfen ***Introduction to ConservationAreasfor the 21stCenturyWEBLINK***, y gellir ei lawr lwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg yr Arfarniad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth, yn cynnwys arweiniad ar ba ddatblygiad sy'n cael ei reoli a lle mae angen caniatadau.

1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheoli sy'n mynd gyda'r arfarniad ardal hwn, cafodd dogfen bellach ***AdviceonEnergyEfficiencyMeasuresinConservationAreas (Planning&PracticalGuide) WEBLINK*** ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, rhoi cyngor ymarferol ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg Gyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

1.2.1 Mae ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffig. 03) yn diffinio yn rhannol beth yw maint ardal yr astudiaeth, ond fe gynhwyswyd yr ardaloedd agosaf o gwmpas (yn cynnwys yr ardaloedd tirwedd cyfagos) er mwyn deall y cefndir ehangach a phennu a fyddai'n briodol gwneud newidiadau i'r ffin.

Lleoliad a Gosodiad

1.2.2 Mae Harlech yn dref fechan uwchben pen gogleddol Bae Ceredigion, tua chwe milltir i'r de o Borthmadog. Mae yng Ngwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, ond yn y gorffennol roedd yn Sir Feirionnydd.

1.2.3 Cafodd tirwedd y dref ei diffinio gan ei daearyddiaeth. Mae'r garreg o grŵp Grutfaen Harlech. Mae band llydan o leidfaen yn rhedeg ar lefel is, yn gyffredinol o'r rheilffordd tua'r gorllewin. Tu draw i hynny, (tu allan i'r ardal gadwraeth) mae ffawt Mochras ac arwyneb o glog glai gyda gwelyau silt a thywodlyd. [1]

01Eglwys Sant Tanwg

[1]Arolwg Daearegol o Gymru a Lloegr / Geological Survey of England and Wales, cyfres mapiau daearegol1:63,360/1:50,000

1.2.4 Mae’r dirwedd weledol yn un o dref sy’n swatio ar lethr anwastad, gyda’r castell ei hun yn sefyll ychydig ymhellach ymlaen ar garnedd o graig ddramatig a chymharol serth. Ar waelod y llethr, mae’r tir yn newid yn sydyn i fod yn wastad - lle byddai llanw’r môr yn cyrraedd unwaith. Yno mae natur datblygiad y tir a’r adeiladau yn amlwg yn wahanol. Yn agos at y tir uwch, y dylanwad mwyaf yw Cwrs Golff Brenhinol Dewi Sant o ddiwedd y 19eg ganrif ac ysgolion o’r 20fed ganrif, adeiladau hamdden a pharciau gwyliau. Ymhellach i ffwrdd mae gwarchodfa natur arfordirol eang o dwyni tywod (Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Harlech).

1.2.5 Cafodd yr Ardal Gadwraeth ei dynodi yn 1979.

02 Pentre’R Efail



Existing Conservation Area
1:5000 @ A4

03 Cynllun o'r Ardal Gadwraeth (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403))

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Mae diddordeb arbennig Ardal Gadwraeth Harlech wedi'i ddiffinio gan gyfuniad o ffactorau, ond efallai ei bod yn fwyaf nodedig oherwydd ei phwysigrwydd hanesyddol a'i safle mewn tirwedd arbennig.

2.1.2 Mae'r castell, o'r 13eg, yn ddylanwad uwchlaw popeth arall ar hanes a chymeriad gweledol y dref. Oherwydd ei fod wedi goroesi i'r fath raddau a'i gysylltiad gyda chestyll eraill Gwynedd, dynodwyd y grŵp o gestyll yn Safle Treftadaeth y Byd.

2.1.3 Mae hanes Harlech o'r oesoedd canol diweddarach yn llawer llai amlwg ar yr argraff gyntaf, gan mai ychydig iawn o'r adeiladau sydd â rhannau sylweddol ynddynt o'r adeg cyn y 19eg ganrif. Fodd bynnag, mae'n debyg bod trefn y rhan fwyaf o'r strydoedd presennol yn dilyn trefn y cyfnod canoloesol hwnnw.

2.1.4 Dim ond ychydig o adeiladau o'r 17eg a'r 18fed ganrifoedd sy'n dal yn bodoli, ac mae'n amlwg bod y dulliau adeiladu traddodiadol sydd i'w gweld ynddynt wedi dylanwadu ar adeiladu yn y 19eg hefyd. Nodweddion yr adeiladau hyn yw eu ffurfiau syml a waliau wedi'u hadeiladu trwy yn aml ddefnyddio meini mawr iawn o'r Grutfaen Harlech lleol a hefyd rwbel lawer llai o faint.

2.1.5 Cafodd y mwyafrif o'r adeiladau sydd i'w gweld yn yr ardal gadwraeth y dyddiau hyn eu cynhyrchu mewn cyfnodau o ddatblygu trwy gydol y 19eg ganrif a rhan gyntaf yr 20fed ganrif. Mae Harlech yn gymharol anarferol yn yr ystyr y bu datblygiad twristaidd cynnar yma (er enghraifft adeiladau o'r 1830au) ond daeth llawer o'i hadeiladau mwyaf amlwg ar ôl dyfodiad y rheilffordd a gŵyr busnes cyfoethog. Mae rhai o'r adeiladau, fel Coleg Harlech, yn bwysig oherwydd eu cysylltiad dyngarol.

2.1.6 Mae gosodiad y dref yn y dirwedd yn hanfodol i'w diddordeb arbennig. Saif Harlech ar gwr Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y Morfa, sydd o ddiddordeb ecolegol arbennig yn ogystal â bod yn anghyffredin o brydferth. Mae'r dirwedd wastad i'r gogledd-orllewin o'r dref yn golygu y ceir golygfeydd eithriadol ar draws Aber Afon Dwyryd a Bae Ceredigion, tuag at rai o fynyddoedd mwyaf dramatig Eryri.

2.1.7 Mae'r dirwedd tu mewn i'r ardal gadwraeth ei hunan yn ychwanegu at olygfeydd a fistâu sy'n golygu cymaint i'w hapêl artistig. Mae'r garnedd greigiog serth y saif y castell arni yn ei osod ychydig yn uwch na'r dref, ac o ganlyniad mae'n nodwedd yn y golygfeydd o'r rhan fwyaf o'r llethrau oddi amgylch.

04 Stryd Fawr

05 Sgwâr y Castell

2.1.8 Mae'r anheddiad presennol yn Harlech yn dref dwristiaeth sydd wedi cael ei chadw'n gymharol dda, a chanddi gymeriad traddodiadol gref. Yn ogystal, mae adeiladau diweddarach mewn arddulliau mwy nodedig sydd o ddiddordeb pensaernïol.

2.1.9 Bu gan y dref apêl am amser hir fel cyrchfan ymwelwyr, ac felly mae ei gwerth cymunedol yn bwysig i ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth.

06 Morannedd ac Ffordd Newydd

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Hanes cynnar

3.1.1 Gellir gweld manylion hanes Harlech mewn man arall, a bwriedir i'r crynodeb isod ddim ond roi cefndir i'r arfarniad ac asesiad o ddiddordeb arbennig.

3.1.2 Cymharol ychydig mewn ysgrifen sydd ar gael am anheddiad yn yr ardal, ond mae cryn dipyn o weddillion strwythurau cynnar. Ger y dref mae Cefnfilltir, gweddillion cylch cytiau amgaeedig consentrig, o Oes yr Efydd neu Oes yr Haearn.[2] Ychydig ymhellach allan tua'r dwyrain mae Carnedd (Gladdu) Gron Carreg, sydd hefyd yn debygol o ddeillio oOes yr Efydd. Tua'r gogledd-ddwyrain mae cylch cwt sy'n debygol o fod o Oes yr Haearn neu'r cyfnod Rhufeinig-Brydeinig.

Canoloesol

3.1.3 Gellir gweld aneddiadau pellach tua'r de-ddwyrain ym Mhentref Hynafol Muriau'r Gwyddelod, a gweddillion aneddiadau a systemau caeau cynhanes tua'r de yng Nghroes Las.

3.1.4 Nid yw'n eglur i ba raddau y bu'r Rhufeiniad yn byw yma, ac mae'n fater dadleuol, er y dywedir y canfuwyd torchau aur a darnau arian.

3.1.5 Fe ddechreuodd Edward I adeiladu'r castell yn 1283, pan gafwyd ffordd ddiogel o ddod yno o gyfeiriad y de ar ôl cipio Castell y Bere. Fe wnaeth y brenin adeiladu neu ail gryfhau nifer o gestyll ar yr adeg honno, yn cynnwys Caernarfon, Conwy a Biwmares (sydd nawr wedi'u cynnwys yn y Safle Treftadaeth y Byd). Fe adeiladwyd y castell yn bennaf o garreg Grutfaen Harlech, ond daeth y gwaith metel o Gaer. Roedd y rhan fwyaf o'r castell wedi cael ei adeiladu erbyn tuag 1295, heblaw am ail gadarnhau'r brif ffordd ato ac ychwanegu dau dŵr bychan pellach yn 1323-4.[3]

3.1.6 Roedd gwrthryfel Owain Glyndŵr yn drobwynt yn hanes y castell, fe gipiwyd y castell yn 1404 a dal gafael arno hyd at 1409, pan ail-gipiwyd ef gan y Tywysog Henry. Ond roedd difrod sylweddol wedi digwydd iddo erbyn hynny, yn enwedig i'r cysylltfur allanol.

Diwedd y 18ed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif

3.1.7 Yn llyfr Thomas Roscoe 'Wanderings and Excursions in North Wales' a gyhoeddwyd yn 1836, mae'n disgrifio Harlech fel 'This mean little town, now only remarkable for its feudalcastle, was formerly a place of considerable

07 Cynllun o Harlech fel y darluniwyd yn'A Tour of Wales', gan Thomas Pennant' cyfrol 1781

08 Rhan o fap degwm 1841

[2] https://ancientmonuments.uk/128908-cefnfilltir-enclosed-homestead-harlech#.YhyXVy2ca8U
3 The Buildings of Wales – Gwynedd (Haslem, Orbach a Voelcker, 2009)

importance'. Mewn ysgythriadau o tua diwedd y 18fedganrif a dechrau'r 19egganrif does ddim ond ychydig glystyrau o adeiladau bychain i'w gweld,a'r rheiny yn aml yn sefyll yn unigol. Mae'n ymddangos nad oes dim ond llond llaw o adeiladau yn sefyll y dyddiau hyn sy'n dyddio'n sylweddol o'r 18fed ganrif neu gynharach. Credir i Dŷ'r Felin gael ei adeiladu yn ail ran yr 17eg ganrif, ac mae'n rhoi'r argraff o ffurf y tai cynharach.

Dechrau'r 19eg Ganrif

3.1.8 Erbyn tua diwedd y cyfnod Sioraidd yn yr 1830au, fe ddechreuodd cyfnod prysurach o ddatblygu, gydag adeiladau mwy o faint wrth i dwristiaeth ddechrau. Fe adeiladwyd y Plas fel tafarn y Blue Lion tua 1830 gan Syr Robert Williams Vaughan fel datblygiad hapfasnachu. Ar fap y degwm o 1841, gellir gweld strimyn cymharol ddi-dor o ddatblygiad ar hyd y Stryd Fawr ac i fyny Pen Dref, a nifer gynyddol o adeiladau sengl ar ochr y llethr. Fe adeiladwyd Eglwys Sant Tanwg hefyd yn yr un flwyddyn (roedd capeli llai yn bodoli cyn hynny).

Twristiaeth yn cyrraedd

3.1.9 Cafodd datblygiad hwb sylweddol pan gyrhaeddodd y rheilffordd y dref - agorwyd yr orsaf yn 1865. Yn ystod y degawd hwnnw, fe ddatblygwyd y dref ymhellach ar gyfer twristiaeth gan Samuel Holland, perchennog chwarel Blaenau Ffestiniog. Fe adeiladwyd Gwesty'r Castle yn 1876.

3.1.10 Daeth cyfleusterau hamdden yn niwedd y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif. Cynhaliwyd Cyfarfod Agored cyntaf Clwb Golff Dewi Sant ym mis Tachwedd 1894, a chodwyd adeilad mawr Gwesty Dewi Sant yn 1910 (ond yn anffodus cafodd ei dymchwel yn 2019 ar ôl cyfnod sylweddol o ddiffyg gofal). Agorwyd Llyfrgell a Sefydliad Harlech yn 1908, gan ddarparu gwasanaeth tanysgrifio.

20fedganrif

3.1.11 Hefyd yn ystod y cyfnod Edwardaidd cynnar yma fe adeiladwyd nifer o dai mawr ar gyrion y dref. Roedd y rheiny'n cynnwys Crown Lodge yn 1903 a Phlas Wernfawr yn 1908. Cafodd hwnnw ei adeiladu ar gyfer cyfarwyddwr Kodak ond fe'i defnyddiwyd yn ddiweddarach fel rhan o Goleg Harlech, a agorodd yn 1927 fel coleg preswyl i oedolion.

3.1.12 Fe losgodd neuadd fawr Coleg Harlech i lawr yn 1968, ac yn ei lle codwyd Theatr Harlech yn 1973.

3.1.13 Yn ystod y degawdau diweddarach, newidiwyd nifer fawr o dai yn Harlech i fod yn llety gwyliau, sy'n dod â chynnydd tymhorol mewn masnach ar gyfer siopau, bariau a bwytai. Fe ddioddefodd cyfleusterau cyhoeddus oherwydd y newid hwn a ffactorau eraill cenedlaethol – erbyn hyn nid yw'r rhan fwyaf o'r capeli'n cael eu defnyddio, neu cawsant eu newid i ddefnydd arall. Caewyd Llyfrgell Harlech ym Mai 2017, a Choleg Harlech yn 2019.

09 Ysgythriad gan W. Walker a W. Angus, ar ôl P. Sandby, 1779

10 Ysgythriad gan Thomas Catherall 1855

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn Anheddiad

4.1.1 Gellir gweld yn eglur bod ffurf bresennol craidd y dref fel y byddai wedi bod cyn yr ailddatblygiad eang a ddechreuodd yn nechrau'r 19eg. Mae canol y dref yn dilyn ffurf linellol ar y cyfan, gan ddilyn cyfuchlin ar hyd y Stryd Fawr, ddaw wedyn yn Ffordd Isaf cyn mynd at i lawr yn raddol i lefel yr arfordir. Mae Pen Dref yn rhedeg i fyny'r allt ymhellach, yn berpendicwlar. Mae Twtil yn nadreddu i lawr y llethr tua'r gorllewin (gyda Thryfar yn ei chyfarfod hanner ffordd). Ym mhen gogleddol canol y dref, mae Ffordd Pen Llech yn rhedeg at i lawr yn ddramatig heibio'r castell (honnwyd yn ddiweddar mai hon oedd y stryd fwyaf serth yn y byd).

4.1.2 Ar y Stryd Fawr, Pen Dref, Tryfar a Phentre'r Efail, mae'r adeiladau'n bennaf mewn rhesi gyda'i gilydd neu mewn grwpiau, ac o ddau neu dri llawr. Mewn mannau eraill, mae'r adeiladau'n sefyll yn bennaf ar eu pennau eu hunain.

4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 Tu mewn i'r ardal gadwraeth, mae nifer o olygfeydd allweddol sy'n dangos naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, yn caniatáu gwerthfawrogi nodweddion penodol neu strwythurau allweddol neu'n rhoi dealltwriaeth iawn o'r datblygiad yn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill ar ffurf cipolwg bwysig, rhwng adeiladau neu tuag at nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth o'r ardal neu at ei chymeriad.

4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa i gyfeiriad penodol) neu'n ddynamig, yn cynnwys beth ellir ei weld o bwynt penodol.

4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gweler hefyd Ffigwr 17):

A Golygfeydd dynamig o'r cwrs golff a'r arfordir.

B Golygfeydd wrth ddynesu o'r gogledd ar hyd Ffordd Morfa.

C Golygfeydd wrth ddynesu o'r de ger Coleg Harlech, ar draws y Morfa tuag at fynyddoedd Eryri.

D Golygfeydd wrth ddynesu o'r de ar hyd Ffordd Newydd tuag at y castell

11 Yr olygfa o Twtil (E)

12 Golygfa Ffordd Pen Llech – mae rhan newydd canolfan ymwelwyr y castell ar y chwith (P)

E Golygfeydd oddi wrth Twtil at i fyny tua'r castell ac i lawr tuag at yr arfordir

F Golygfeydd oddi wrth Dryfar tuag at y castell

G Golygfeydd oddi wrth ben Rhes Bronwen tuag at y castell

H Golygfeydd oddi wrth Rhes Bronwen ar draws y Morfa

I Golygfeydd oddi wrth Dryfar ar draws y Morfa,gyda mynyddoedd Eryri yn y cefndir

J Golygfa banoramig o'r garnedd greigiog oddi ar Ffordd Isaf (Craig Branwen)

K Golygfa oddi wrth gornel Ffordd Isaf tuag at y castell

L Golygfeydd oddi wrth y Gofeb Ryfel ar y Stryd Fawr i lawr Tryfar tuag at y Morfa (1) ac i lawr Pentre'r Efail (2)

M Golygfa gyda drychiad gorllewinol Eglwys Sant Tanwg yn y blaendir, tuag at y tai ar ochr llethr Ffordd Uchaf

N Golygfeydd ar hyd y Stryd Fawr, i'r ddau gyfeiriad

O Golygfeydd tuag at fynyddoedd Eryri ac aber afon Dwyryd, gyda'r castell yn y blaendir

P Golygfa oddi wrth ben uchaf Ffordd Pen Llech

Q Golygfa oddi wrth Ffordd Pen Llech tuag at fynyddoedd Eryri a'r aber

R Golygfeydd oddi wrth lwybr troed Ffordd Pen Llech tu allan i Glas Cerrig,tuag at y castell a'r dirwedd tua'r gogledd

S Golygfa oddi wrth y Stryd Fawr tuag at y castell a thuag at y dirwedd i'r gogledd

T Golygfa oddi wrth Gapel Rehoboth sy'n cynnwys y dref, y castell a'r Morfa/arfordir tu hwnt

U Golygfa oddi wrth y ffordd fechan sy'n arwain oddi ar Ben Dref, dros doeau Porkington Terrace ac yn cynnwys y castell a thirwedd ddramatig tu hwnt

V Golygfa i lawr Pen Dref – y castell wedi'i fframio ym mhen pellaf yr olygfa

W Golygfa oddi wrth Ben y Graig ar draws y dref

X Cipolwg o Ffordd Isaf tuag at Goleg Harlech

13 Golygfa o'r ardal gadwraeth o Gapel Rehoboth (T)

14 Ambell gipolwg o Goleg Harlech o Ffordd Isaf (X)

Y Golygfeydd oddi wrth y castell ar draws y dref a'r dirwedd

Z Golygfeydd oddi wrth ochr y llethr sydd tua'r dwyrain,yn edrych tua'r dref.

4.3 Mannau Gleision a Choed

4.3.1 Y prif fan glas tu mewn i'r ardal gadwraeth yw Parc Bron y Graig. Mae hwn wedi'i guddio dipyn ond yn darparu man agored gwerthfawr o'i gymharu â rhai o'r adeiladau sy'n agos at ei gilydd. Yn y parc, mae ardaloedd o laswellt lawnt, coed aeddfed a phwll dŵr.

4.3.2 Mae darn bychan o dir glas a gweledfan drawiadol ger Ffordd Isaf. Canolbwynt y fan honno yw carnedd fechan o graig, ac mae bwrdd sy'n rhoi gwybodaeth am nodweddion y dirwedd sydd i'w gweld. Hefyd mae llwybr oddi yma'n arwain i lawr i Stryd Newydd, Coleg Harlech a'r arfordir.

4.3.3 O'r ardal hon ac ymhellach tua'r de, mae rhimyn llydan o wyrdd ar y llethr, sy'n rhoi ymyl i ddiffinio'r dref ac yn gymorth i'w fframio mewn golygfeydd o gyfeiriad yr arfordir. Mae'r gorchudd gweddol drwchus o goed a llwyni'n parhau ar yr ochr arall o Ffordd Isaf o amgylch Crown Lodge a'r anheddau eraill mawr unigol.

4.3.4 Mae'r mannau glas hyn, ynghyd â'r rhai sy'n amgylchynu'r castell ac ar gyrion rhai o'r lonydd bychain ar y llethr, yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad gweledol yr ardal a bron yn sicr yn darparu cysylltiad gwyrdd (o ran estheteg ac ecoleg) rhwng y Morfa 'r llethr tu cefn. Mae hynny er nad ydynt efallai'n cynnwys llawer o goed unigol nodedig (er yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn ystod y gaeaf).

4.3.5 Cymharol ychydig o goed yn yr ardal gadwraeth sydd wedi'u diogelu gan orchmynion cadw coed – y rhai sydd wedi'u cynnwys yw grŵp o bedair coeden unigol tua'r gogledd a'r dwyrain o Eglwys Sant Tanwg. Dangosir hwy ar Ffigwr 18 ac yn rhan 8. Yn ogystal, mae coed wedi'u diogelu ychydig tu allan i'r ardal gadwraeth fydd yn dylanwadu ar ei chymeriad. Mae'r rheiny'n cynnwys coetir Maes Carafanau Woodlands (tua'r gogledd o'r castell) a thua'r dwyrain o Barc Bron yGraig.

15 Ambell gipolwg o Goleg Harlech o Ffordd Isaf (X)

16 Parc Bron y Graig



Key Views
1:5000 @ A4

 (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



Trees
1:5000 @ A4

18 Coed sy'n destun Gorchmynion Cadw Coed neu Goed Pwysig eraill yn yr Ardal Gadwraeth (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

5.0 Cymeriad

5.1 Golwg gyffredinol

5.1.1 Mae cymeriad cyffredinol Harlech wedi'i ddiffinio gan gyfuniad o'r castell amlwg, ei hadeiladau traddodiadol, strydoedd ar y llethrau a'r lleoliad dramatig yn y dirwedd.

5.1.2 Mae cymeriad y dref yn newid yn barhaus, hyd yn oed er bod y mwyafrif o'i hadeiladau'n rhai traddodiadol ac yn eu hanian yn parhau'r un fath - a hynny'n bennaf oherwydd y newidiadau yn y ffyrdd bydd pobl yn defnyddio'r dref. Mae ei phoblogrwydd fel cyrchfan twristiaeth yn cefnogi siopau unigol llai o faint a chaffis/bwytai, a rheiny sydd nawr yn gosod cymeriad y Stryd Fawr. Yn ystod y tymor ymwelwyr, mae bywiogrwydd da yng nghanol y dref, gydag arddangosfeydd siopau a byrddau arwyddion caffis. Ar strydoedd eraill, yr anheddau yw'r nodweddion, ran amlaf yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau erbyn hyn. Cafodd nifer gynyddol o derasau patio eu hadeiladu tu allan i'r tai hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan roi gwerthfawrogiad o'r golygfeydd dramatig.

5.1.3 Mae'r lleoliad yn diffinio lawer iawn ar gymeriad Harlech ac yn effeithio ar y ffordd y defnyddir hi'r dyddiau hyn. Mae'r castell, yr arfordir a mynyddoedd Eryri gerllaw oll yn denu ymwelwyr, ond hefyd yn nodweddion grymus yn y golygfeydd o nifer o fannau. Mae'n amlwg y bu'r awydd i barhau i ddefnyddio deunyddiau a thechnegau adeiladu traddodiadol yn bwysig yn natblygiad y dref, er efallai bod llawer o'r adeiladau'n rhai mwy diweddar nag a welir mewn trefi Cymreig eraill gyda chysylltiadau mor gryf gyda threftadaeth. Mae defnyddio carreg yn y mwyafrif o adeiladau'n hollbwysig i gymeriad unigryw Harlech, ac felly hefyd trefn ganoloesol y strydoedd. Mae'n debyg y cafodd nodweddion pictwrésg y lonydd bychain ar y llethrau eu gwerthfawrogi wrth i'r dref ddatblygu ei hunan fel cyrchfan i ymwelwyr, lle gellid fel arall bod wedi cael ffyrdd lletach, haws i'w defnyddio, yn rhedeg at i lawr yn fwy graddol.

5.1.4 Mae'r adeiladau mwy o faint, mwy masnachol o ran eu datblygiad, o ran olaf y 19eg ganrif hefyd o gymorth i osod cymeriad yr ardal gadwraeth. Yn enwedig felly wrth ddynesu ati o'r gogledd a'r de - y rhain yw'r adeiladau mwyaf yn y dref, heblaw am y castell.

19, 20 & 21 Golygfeydd tu mewn i'r ardal gadwraeth

5.3 Ardaloedd Cymeriad.

5.3.1 Mae Harlech yn ardal gadwraeth mwy o faint, a chanddi nifer o ardaloedd cymeriad gweddol wahanol i'w gilydd. Mae'n ddefnyddiol diffinio diddordeb arbennig y rhannau hyn er mwyn cynorthwyo i fynegi pa fathau o newid neu ddatblygiad allai fod yn briodol neu'n niweidiol yn y dyfodol.

5.3.2 Dangosir lleoliad yr ardaloedd cymeriad hyn ar y map yn ffigwr 22, ac mae cynlluniau manylach o bob ardal cymeriad i'w gweld ymhellach ymlaen (gyda'r rhain hefyd yn cynnwys adeiladau annynodedig wedi'u rhifo / asedau o ddiddordeb)

Ardal Cymeriad 1, Castell Harlech

5.3.3 Mae'r ardal hon yn dilyn ffin y dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ac yn cynnwys y castell ei hunan a'r domen/graig y saif arni. Mae'r castell ei hunan yn gosod cymeriad amlwg i'r ardal, felly hefyd y muriau amddiffynnol wrth waelod y graig, yr wynebau creigiog serth a'r llwybr sy'n troelli i fyny oddi amgylch y castell (yn anffodus, roedd hwnnw mewn cyflwr peryglus ar adeg ysgrifennu hwn a doedd dim mynediad i'r cyhoedd).

Ardal Cymeriad 2, Ffordd Pen Llech

5.3.4 Cymeriad amlwg yr ardal hon yw ba mor serth yw'r graddiant a'r golygfeydd sy'n agor tua'r gogledd, yn enwedig tuag at y mynyddoedd. Mae'r adeiladau yn y fan hon yn amrywiol eu cymeriad ond mae ganddynt yn aml arwyddion bod mwy o bwysigrwydd yn perthyn iddynt o ran eu hoed ac o ran hanes.

5.3.5 Mae'n debyg bod Castle Lodge (cyf. 24 ar y map) ar un tro yn rhes o fythynnod isel, o statws isel. Mae'r ffenestri'n fychan iawn a ddim mewn lleoliadau rheolaidd. Nid yw'r Hen Felin (cyf. 25 ar y map) yn tynnu sylw o'r tu allan wrth edrych oddi wrth y ffordd, gydag estyniad mawr wedi'i rendro a tho modern. Ond mae tystiolaeth oddi wrth fapiau a dogfennau'n awgrymu y gallai hwn fod, o leiaf yn rhannol, yn un o adeiladau hŷn y dref.

5.3.6 Ymhellach i lawr mae 1-2 Tŷ Eiddew (IvyCottages) (cyf. 27 ar y map) yn wahanol i sut mae'n ymddangos ar y dechrau. Mae gro chwipio ar y tu allan, a ffenestri UPVC. Mae ffenestr dormer lydan yn dominyddu'r uned ar y llaw chwith. Fodd bynnag, cafodd yr adeiladau eu hasesu gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd yn 2009 a gwelwyd bod Tŷ Eiddew yn wreiddiol yn un strwythur, gyda tho pedwar bae gyda phum trawst croes

23 Castell Harlech

24 Castle Lodge yn ardal Ffordd Pen Llech

a chleddyfau gwynt cysbog. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn adrodd bod y gwaith coed o safon uchel, a'r coed eu hunain wedi cael eu dewis yn ofalus i'r diben.

5.3.7 Ychydig yn is i lawr mae bwthyn arall (cyf. 28 ar y map) o'r 19eg ganrif, gafodd ei estyn a newid ei ffenestri. Mae'r castell yn gefndir i'r adeilad hwn, wrth edrych i fyny'r allt.

5.3.8 Mae llwybr yn rhedeg oddi ar ganol Ffordd Pen Llech, ar yr ochr ddwyreiniol. Yno mae pâr o dai deulawr syml (cyf. 29 ar y map), y rhain hefyd o'r 19eg ganrif. Mae golygfeydd da oddi wrth y teras y tu allan. Ymhellach i lawr y llwybr, mae'r adeiladau'n fwy modern.

5.3.9 Ar ochr ddwyreiniol Ffordd Pen Llech, wrth fynd yn ôl i fyny'r allt, mae dau bâr o fythynnod (cyf. 30 a 31 ar y map) er bod Yr Odyn wedi'i gyfuno i greu un annedd erbyn hyn. Mae gan y ddau waith cerrig garw, heb fod mewn rhesi. Ychydig ymhellach mae Tŷ'r Felin, sy'n rhestredig graddfa II ac wedi'i ddiogelu fel un o'r ychydig dai o gyn y 19eg ganrif yn Harlech ac oherwydd ei fod wedi cadw ei gymeriad gwreiddiol a nodweddion fel y llechi sy'n estyn allan wrth fôn y simnai a nifer a maint llai'r ffenestri. Ger hwn mae Caereinon (cyf. 32 ar y map), sy'n fwy o faint ac yn debygol o fod o ddechrau'r 19eg ganrif (gyda chymesuredd mwy ffurfiol adeilad Sioraidd diweddar / Fictoraidd cynnar) ond yn parchu manylion mwy traddodiadol ei gymydog.

5.3.10 Y drws nesaf iddo mae Castle Cottage (cyf. 33 ar y map) sydd efallai o gyfnod tebyg ond wedi cael ei newid yn sylweddol, gyda cherrig chwipio arno ac wedi'i baentio. Mae ganddo ffenestri UPVC modern, ffenestri dormer ac estyniadau yn y tu blaen.

5.3.11 Mae Gweithdy Saer yn hen dafarn o ddiwedd y 17eg ganrif neu ddechrau'r 18fed ganrif, yn rhestredig graddfa II. Mae ganddo waith carreg sydd heb ei naddu a ddim mewn rhesi, ac agoriadau bychain afreolaidd.

Ardal Cymeriad 3, Twtil / Tryfar

5.3.12 Nodweddion yr ardal hon yw amrediad eang o dai sydd ar y cyfan o faint bychan, ar lonydd bychain sy'n nadreddu i fyny'r llethr.

5.3.13 Wrth fôn yr allt mae clwstwr bychan o dai yn union tua'r gorllewin o'r castell (cyf. 3-5 ar y map). Mae'r rhain yn amrywio mewn oed o ddechrau'r 19eg ganrif i ddechrau'r 20fed ganrif, ond y cyfan yn ddeulawr gyda muriau carreg o wead amrywiol. Toeau llechi sydd arnynt, mewn goleddf gweddol

25 Edrych tua Tŷ Eiddew yn ardal Ffordd Pen Llech

26 Edrych draw at Yr Odyn yn ardal Ffordd Pen Llech

serth. Mae ffenestri bae yn gwneud y defnydd gorau o'r cymeriad agored. Yma gellir gweld bôn y castell ac yma mae wyneb y graig oddi tano yn fwyaf serth, gan olygu ei fod yn amlwg iawn uwchben yr adeiladau islaw.

5.3.14 Ychydig ymhellach i ffwrdd ar hyd Stryd Newydd mae grŵp bychan arall (cyf. 6 a 7 ar y map). Y tro hwn maen nhw o dri llawr yn bennaf, gyda'r lloriau uchaf â'u hanner tu mewn i'r to a ffenestri dormer yn ychwanegu diddordeb i linellau'r toeau.

5.3.15 Mae Twtil yn cyfarfod Stryd Newydd ar ongl letraws ac wedyn yn dechrau rhedeg i fyny'r llethr. Y tŷ cyntaf yw Plas Owain (cyf. 8 ar y map), sy'n fila ar ei ben ei hun, wedi'i gyflwyno'n dda ac wedi'i adeiladu yn 1907 o gerrig wedi'u torri'n sgwâr a'u gosod yn rhannol mewn rhesi. Ei nodweddion amlycaf yw parau o ffenestri cortyn a chanopi yn estyn rhwng baeau ar y llawr daear a'r rheiny'n estyn allan. Mae lle ar gyfer gardd wedi'i phlannu, gan fod y tŷ hwn wedi'i osod yn ôl o'r ffordd ac uwchben wal derfyn gerrig.

5.3.16 Ar y tro tynn cyntaf mae cipolwg o Bronwen Terrace ar y llethr uwchben. Mae Bron Castell (9) yn adeilad ychydig yn gynharach (o ganol y 19eg ganrif) ac yn sefyll ychydig bach yn ôl o'r ffyrdd, tu ôl i wal fechan. Mae'n adeilad deulawr gyda phedwar bae o ffenestri ag iddynt nifer o gwareli gwydr, gyda linteli llechen.

5.3.17 O amgylch y tro nesaf mae Tyn y Groes (cyf. 10 ar y map), sy'n adeilad hŷn na'r argraff a roir gan y ffenestri UPVC (gan ymddangos ar ddegwm 1841). Mae ei oed hefyd yn cael ei awgrymu gan ba mor isel yw'r pellter o'r lloriau i'r nenfydau a'r meini mawr afreolaidd sy'n ffurfio ei waliau.

5.3.18 Mae Bwthyn Twt Hill (cyf. 11 ar y map) ar ôl y trydydd tro tynn, sef y tro olaf, ac mae ganddo yntau gymeriad adeilad hŷn – eto gyda meini mawr yn y corneli. Gan ei fod yn unllawr, efallai y bu'n weithdy o ryw fath, er enghraifft gefail gof. Mae ffrwd fechan ddymunol yn rhedeg trwy'r iard.

5.3.19 Ymhellach draw, mae ychydig o adeiladau o'r 20fed ganrif gyda cherrig chwipio arnynt, a'r trydydd o'r rheiny yw'r Neuadd Goffa (cyf. 13 ar y map). Gyferbyn mae Fair View (12), fila o oes Fictoria gyda tho â goleddf serth. Wrth i'r ffordd fechan ddod yn llai serth a throi'n raddol i gyfarfod Sgwâr y Castell, mae adeilad toiledau cyhoeddusa adeiladwyd yn bwrpasol yn rhan olaf y 19eg ganrif (14). Mae gan hwnnw agoriadau gyda bwâu yn bennau iddynt a ffynhonnell ddŵr yn y canol (nad yw'n gweithio bellach). Ar yr ochr arall mae cerflun (15) yn dangos hanes Branwen o'r Mabinogi. Cerfiwyd hwn gan Ivor Roberts-Jones a dadorchuddiwyd ef yn1984.Er bod sawl cipolwg o'r castell i'w gael wrth ddringo i fyny Twtil, dim ond yn y fan hon mae i'w weld yn ei gyfanrwydd.

27 Tyn y Groes yn ardal Twtil / Tryfar

28 Tai ar Dryfar a Chapel Moreia yn y pellter

5.3.20 Mae Tryfar yn cysylltu yn ei ben uchaf yn y 'pant' ym Mhentre'r Efail. Y naill ochr o'i rhan uchaf mae tai deulawr (cyf. 65-68 ar y map). Mae'r rhain wedi'u hadeiladu ar ffurf grisiau sy'n rhedeg mewn ffordd ddeniadol i lawr y llethr. Fodd bynnag, mae gan rai orchudd o rendrad dros eu gwaith cerrig, ac eraill ffenestri UPVC modern. Ar yr ochr ogleddol mae Moreia, Capel y Methodistiaid Calfinaidd (69) a adeiladwyd yn 1794, ei ail adeiladu 1837 ac eto yn 1864. Yn ei wyneb blaen, mae ffenestri mawrion gyda phennau bwa a waliau o gerrig bychain iawn wedi'u torri'n sgwariau a'u gosod yn rhannol mewn rhesi (gyda cherrig cymysg yn yr ochrau, heb fod mewn rhesi). Yn y cefn mae adeilad neuadd wedi'i rendro (71).

5.3.21 Wrth i Dryfar droi o gwmpas wyneb y castell, mae Bronwen Terrace (cyf. 72 ar y map) mewn lleoliad i fwynhau'r golygfeydd trawiadol. Mae'n adeilad o ddau lawr a hanner, o oes Fictoria, gyda'i grynswth wedi'i rannu gan ffenestri bae a thalcenni, a'r tai ar y pen yn sefyll rywfaint ymlaen.

Ardal Cymeriad 4, y Stryd Fawr

5.3.22 Mae'r ardal hon ar y cyfan yn wastada'r adeiladau wedi'u gosod yn dynn gyda'i gilydd, yn aml mewn rhesi.

5.3.23 Mae Sgwâr y Castell (Maesgwyn) yn ardal o newid, o'r adeiladau ar ochr y llethr yn Twtil i'r rhai sy'n dynnach at ei gilydd ar y Stryd Fawr. Roedd adeilad yr Hen Farchnad Gaws (cyf. 17 ar y map) hyd yn ddiweddar yn neuadd i Eglwys Sant Tanwg. Mae'n unllawr, gyda drysau a ffenestri sy'n llawn cymeriad a'u pennau uchaf ar ffurf bwáu. Tu cefn mae rhes fechan o fythynnod wedi'u hadeiladu o gerrig (18).

5.3.24 Y dyddiau hyn, mae Gwesty'r Castell gynt (19) yn ganolfan ymwelwyr i'r castell. Mae'n wynebu'r castell yn uniongyrchol ac yn un o adeiladau mwyaf y dref, o ran ei ôl troed ar y ddaear a'i uchder. Mae mwy o gymalau yng ngwaith carreg hwn nac yn yr adeiladau mwy traddodiadol, gyda nodweddion amlwg fel conglfeini rheolaidd yn y corneli, llin-gyrsiau a bwâu ym mhennau'r ffenestri.

5.3.25 Cafodd yr adeilad ar gornel y Stryd Fawr a Ffordd Pen Llech (34), ei godi yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Hyd at y degawdau diwethaf, roedd ganddo barapet talcen mewn arddull Iseldiraidd a manylion addurnol o amgylch ei ffenestr gron ar yr ail lawr a'r ffenestr oriel ar y llawr cyntaf. Ar un adeg, byddai wedi'i baentio mewn lliw pastel, ac mae'r cerrig chwipio a'r estyll tywydd cryno a manylion y ffenestri'n gwneud iddo edrych yn ddisylw. Wrth edrych i fyny o Ffordd Pen Llech, mae ei gefn un llawr yn uwch ond heb nemor ddim manylion pensaernïol, sy'n rhoi golwg annifyr o ddiaddurn iddo. Fodd bynnag, mae'r canopi haearn bwrw gyda cholofnau main a bracedi 'art nouveau' yn parhau i fod arno.

29 Rhes Bronwen yn ardal Twtil / Tryfar

30 Gwesty'r Castell – nawr yn Ganolfan Ymwelwyr i'r Castell

5.3.26 Mae nifer fechan o adeiladau ar y Stryd Fawr i'r gogledd o Ben Dref (cyf.37-39 ar y map), yn un neu ddau lawr ac wedi'u hadeiladu o gerrig mewn rhesi, yng nghanol-ddiwedd y 19eg ganrif.

5.3.27 Mae'n debyg mai Gwesty'r Lion (40) ar Ben Dref yw un o'r adeiladau twristiaeth cynharaf yn Harlech. Mae'n ddau lawr a hanner ac wedi'i rendro, gyda phum bae talcennog a portsh ar y llawr daear sy'n estyn fel canopi dros ddwy ffenestr fae arall. Mae'r adeiladau sy'n dilyn (42, 43, 45) yn camu'n ddramatig i fyny'r allt. Dau lawr sydd gan y rhain, gyda chymysgedd o gerrig mewn rhesi a heb fod mewn rhesi, ond plaen yw eu golwg yn gyffredinol. Mae PorkingtonTerrace (44) o gymeriad tebyg, yn rhes o 7 bwthyn carreg (a adeiladwyd yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif) o gerrig mewn rhesi ond gyda ffenestri mewn trefn gymesur ofalus ac wedi'u gosod i roi golygfeydd da dros y dref, y castell a'r dirwedd ehangach.

5.3.28 Mae Bryn Tirion wedi'i ddyddio yn 1841 a'i restru fel graddfa II, gydag eiddew'n cuddio tua hanner ohono ar hyn o bryd (2022), felly cymerir nad yw'n cael ei ddefnyddio ac o ganlyniad y gallai fod problemau o ran ei gyflwr. Er hynny, mae'n parhau i fod yn fwthyn llawn cymeriad, gan ei fod wedi'i adeiladu'n uniongyrchol o'r graig sylfaenol ac yn cynnwys meini mawr mewn modd tebyg i'r adeiladau hŷn.

5.3.29 Yn ôl ar y Stryd Fawr, mae Plas y Goits (cyf. 49 ar y map) yn grŵp o amgylch cwrt ac yn hŷn na degwm 1841, oedd efallai yn wreiddiol yn dŷ gyda gweithdai neu stablau ynghlwm, ond nawr mae'n grŵp deniadol o unedau siop bychain. Mae'r gwaith cerrig yn y grŵp hwn yn defnyddio unedau mawrion, ac wedi'i baentio ar hyn o bryd.

5.3.30 Wedyn mae llethr glaswelltog sy'n rhoi toriad anghyffredin yn wyneb y stryd, ac ar ôl hynny'r hen Gapel Methodistaidd Seion (cyf. 50 ar y map). Fe adeiladwyd hwn yn 1814 a'i ailadeiladu yn 1873, yn unol â dyluniad y pensaer Owen Morris Roberts o Borthmadog. Mae ei ymddangosiad yn gymharol syml, gyda gwaith cerrig amrywiol a ffenestri gyda phennau crynion. Fe ddechreuodd yr Eglwys Gatholig ei ddefnyddio ar ddiwedd yr 20fed ganrif.

5.3.31 Ar y gyffordd gyda Phen Dref mae clwstwr pictwrésg o adeiladau tri a dau

31 Adeiladau ar Ben Dref, yn ardal y Stryd Fawr

32 Plas y Goits ar y Stryd Fawr

5.3.33 Mae'r Plas yn adeilad graddfa II gyda thri llawr ynddo, o ddiwedd y cyfnod Sioraidd, fu unwaith yn dafarn. Fe'i adeiladwyd o gerrig rwbel sydd yn rhannol mewn rhesi ac wedi'u paentio, gyda tho talcennog. Mae ganddo ffenestri bae anghyffredin crwn ar y llawr daear, gyda bron y cyfan ohonynt wedi'i gwydro. Mae'r adeilad nesaf ato hefyd wedi'i restru'n graddfa II, er ei fod o gymeriad tebyg i ychydig o'r adeiladau deulawr eraill o'r 19eg ganrif.

5.3.34 Mae'r Stryd Fawr yn rhedeg o gwmpas pant naturiol yn y topograffi, ar ffurf arc. Mae Pentre'r Efail yn croesi hyn ar lefel is. Ar gornel y ddwy ffordd hyn mae adeilad diddorol ar fwy nag un lefel (64) sydd, mae'n debyg, o tua 1900 a gydag wynebau siop gwydr mawr a manylion ffrâm bren yn y talcenni.

5.3.35 Y drws nesaf iddo mae Tabernacl, oedd gynt yn Capel y Bedyddwyr Cymreig (cyf. 82 ar y map), lle'r oedd gwaith adeiladu (a thrawsnewid?) yn digwydd ar adeg ysgrifennu hwn yn 2022. Adeiladwyd y capel yn 1897 gan ddilyn dyluniadau'r pensaer J.E. Evans o Abermaw. Mae mewn arddull clasurol, sy'n anghyffredin yn y dref hon, a gyda rhai nodweddion mewn cerrig nadd llwydfelyn. Yn ôl cofnod Coflein, cafodd y llawr gwaelod ei ddefnyddio fel garej ers 2010, a gwasanaethau'n cael eu cynnal yn y llawr is.

5.3.36 Ymhellach ymlaen ar hyd y tro mae'r adeilad oedd gynt yn llyfrgell ac institiwt (cyf. 83 ar y map). Mae'r adeilad hwn yn wahanol i ddyluniad ffurfiol ei gymydog, gan ei fod yn yr arddull celf a chrefft gyda pharapetau a thalcenni syml a ffenestri codi gyda nifer fwy o baneli gwydr yn y rhannau uchaf.

5.3.37 Gyferbyn mae Byrdir House (cyf. 84 ar y map), sy'n dŷ tri llawr wedi'i rendro, a godwyd yn rhan olaf y 19eg ganrif. Mae ganddo fowldin capan uwchben y ffenestri llawr cyntaf a baeau ar y llawr daear.

5.3.38 Ar ochr ddeheuol y tro mae grwpiau deulawr o ddiwedd y 19eg ganrif (86-88) gyda siopau yn y llawr daear. Mae gan y rhain gymysgedd o wynebau cerrig a rhai wedi'u rendro. Ar yr ochr ddeheuol mae rhes fer o adeiladau cerrig(89) – cafodd adeiladau eraill cyfagos eu newid, a cholli eu cymeriad.

5.3.39 Ym Mhentre'r Efail, mae'r adeiladau mewn rhesi ac o uchder a chymeriad cymedrol. Byddai'r cyfan wedi'u hadeiladau o gerrig, er bod nifer fechan wedi'u rendro erbyn hyn. Mae gan y stryd ei chymeriad ei hun oherwydd graddfa fechan y tai hyn (gyda maint ycerrig mawrion yn cynyddu effaith weledol hynny), y ffenestri dormer sy'n cael eu hailadrodd a'r ffenestri codi (er bod ffenestri eraill bellach yn lle llawer ohonynt). Mae'n debyg mai'r adeilad hynaf yw un Crochendy Harlech,sy'n apelio mewn ffordd ddymunol, gyda gwead ei waith cerrig, y ffenestr fae gyda nifer o gwareli gwydr, ffenestri codi bychan a phalmant cerrig cobl.

33 Stryd Fawr – gyda'r Plas yn y blaendir

34 Stryd Fawr

5.3.40 Wrth i'r Stryd Fawr newid i fod yn Ffordd Isaf, mae pedwar tŷ mawr. Roedd y cyntaf (cyf.91 ar y map) yn feddygfa am rywfaint o amser. Cafodd ei adeiladu tua 1900, o gerrig ag ymylon sgwâr iddynt, yn rhannol mewn rhesi. Mae ei do mewn ffurf cymharol gymhleth, gyda thalcenni a baeau. Mae'r ail un, Maelgwyn (92), o ran gyntaf yr 20fed ganrif a chanddo ffenestri bae mawr iawn a bae yn y canol sy'n estyn allan gan gyrraedd uchder y 3 llawr cyfan. Mae'r trydydd yn fodern ond mae gan y pedwerydd (sydd mewn gwirionedd yn bâr - Dros y Môr / Llys Branwen (93)), ffenestri codi gweddol fawr ond bod y rheiny wedi'u gosod mewn gwaith cerrig cymharol draddodiadol. Mae wedi'i addurno gyda thalcenni a fframiau pren a chanllaw haearn ar ben canopi (sydd wedi'i lenwi'n rhannol).

Ardal Cymeriad 5, Eglwys SantTanwg

5.3.41 Nodweddion ardal Eglwys Sant Tanwg yw'r eglwys ei hun a hefyd y dirwedd werdd o'i hamgylch. Mae'r eglwys ar ben llethr glaswelltog gyda nifer o goed a llwyni o'i chwmpas – a'r eglwys wedi'i chuddio'n rhannol gan goed conwydd mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Tua'r gogledd o'r eglwys mae llwybr cyhoeddus – ac oddi yno ceir golygfeydd ar draws tir yr eglwys tuag at adeiladau Pen y Graig tu hwnt. Mae hwn hefyd yn fynediad i Barc Bron y Graig, sy'n dirwedd ar ffurf powlen naturiol.

Ardal Cymeriad 6, Coleg Harlech

5.3.42 Mae casgliad adeiladau Coleg Harlech wrth droed y llethr – yno mae grŵp sy'n amrywio lawer yn bensaernïol, o'r Wernfawrgwreiddiol rhannol glasurol hyd at adeilad brutalist y theatr. Ar ochr arall y ffordd mae'r Wern, sy'n rhestredig graddfa II ac a adeiladwyd tua 1935 ar gyfer Warden cyntaf Coleg Harlech, Syr Ben Bowen Thomas – mae mewn arddull celf a chrefft. Yn hanesyddol, bu'r ardal o goetir trwchus tua'r dwyrain o'r casgliad adeiladau'n rhan o dir y coleg, ac mae'n effeithio ar ei gefndir wrth edrych o gyfeiriad yr arfordir.

35 Pentre'r Efail yn ardal y Stryd Fawr

36 Coleg Harlech



Character Area 1 - Harlech Castle
1:2000 @ A4



Character Area 2 - Ffordd Pen Llech
1:2000 @ A4



Character Area 3 - Twtil / Tryfar
1:2000 @ A4



Character Area 4 - Stryd Fawr
1:2500 @ A4



Character Area 5 - St Tanwg's Church
1:2000 @ A4



Character Area 6 - Coleg Harlech
1:2500 @ A4

5.4 Deunyddiau a Manylion

5.4.1 Y prif ddeunydd adeiladu yw grutfaen Harlech, ond gyda llechen ar gyfer adeiladu, yn estyn allan o simneiau ac yn aml fel linteli. Mae'r amrywiaeth naturiol yn lliw a gwead y cerrig yn nodwedd bwysig ac yn rhoi ansawdd pictwrésg i'r dref.

5.4.2 Mae'r ffordd o osod y cerrig a'u gorffeniad yn amrywio'n sylweddol ac yn newid cymeriad a statws yr adeiladau. Mewn adeiladau bychain, cynharach, fel Tŷ'r Felin mae amrywiaeth fawr yn y gwaith cerrig. Defnyddir meini mawr o tua metr o hyd yn y conglau, yn enwedig ger y sylfaen, ond mae gweddill yr wyneb yn rwbel amrywiol o unrhyw faint, gydag ychydig iawn neu ddim gwaith cerfio arno.

5.4.3 Mewn adeiladau ar hyd y Stryd Fawr, mae mwy o waith cerfio yn gyffredinol wedi digwydd i'r cerrig, ac maent ar y cyfan wedi'u gosod mewn rhesi. Mae'r gwaith cerrig yn y Plas, sy'n adeilad Sioraidd, yn unedau mawrion o faint tebyg i'w gilydd, ac felly'n gorwedd fwy neu lai mewn rhesi, ond does dim gwaith bwriadol wedi digwydd i'w cael mewn sgwariau. Yn wahanol i hynny, tuag at ben arall y stryd mae gan brif wynebau llawer o'r adeiladau diweddarach flociau cerrig wedi'u torri'n sgwâr a chysylltiad morter tynn rhyngddynt. Ond wynebau garw sydd ar y cerrig, ac mae amrywiaeth yn y drefn o'u gosod mewn rhesi, trwy ddyblu neu haneru uchder y cerrig. Defnyddir rwbel amrywiol ar gyfer waliau ochr y rhan fwyaf o adeiladau.

5.4.4 Mae cerrig wedi'u naddu'n llyfn yn bethau prin, a ddim yn nodwedd gyffredinol o'r dref. Eithriadau nodedig i hynny yw'r gwaith naddu mewn rhai mannau e.e. ffenestri a chwt clychau Eglwys Sant Tanwg ac wynebau siopau a ffenestri llawr cyntaf Cae Du Designs.

5.4.5 Mae nifer o'r adeiladau hŷn wedi'u paentio – mae'n debyg mai gwyngalch oedd arnynt yn wreiddiol, ac yn ddiweddarach rhoddwyd haenau dros hynny o baent mwy a mwy trwchus, sydd yn aml ddim yn caniatáu i leithder fynd trwyddo.

5.4.6 Gellir gweld rendr yn gymharol gyffredin ond nid yw'n nodwedd draddodiadol. Mae'n ymddangos y defnyddiwyd cerrig chwipio ar adeiladau mwy newydd o ddechrau'r 20fed ganrif ymlaen, a gellir tybio bod hynny i geisio efelychu lliw'r cerrig traddodiadol. Yn fwy diweddar, bu tuedd i ddefnyddio rendrau llyfnach, neu baentio dros y cerrig chwipio.

5.4.7 Mae adeiladwaith brics yn brin iawn - yr enghraifft sy'n sefyll allan, a gellid

43 Ty'r Felin

44 Deunydd amrywiol ar y Stryd Fawr

dadlau bod hynny'n anghyfforddus, yw'r tŷ ar y Stryd Fawr lle defnyddiwyd brics llyfn wedi'u gwasgu, mewn lliw coch cryf, sy'n wahanol iawn i'r deunyddiau lleol naturiol.

5.4.8 Llechi yw'r rhan fwyaf o'r toeau, o'r 19eg a'r 20fed ganrifoedd, gyda'r llechi wedi'u hollti'n denau ac mewn rhesi o faint cyfartal neu'n lleihau ychydig mewn maint. Mae'r toeau adeiladwyd cyn diwedd y 19eg ganrif yn syml ac mewn ffurf i ateb y diben. Defnyddiwyd ffiledi morter a llechi sy'n estyn allan ar gyfer ategwaith (e.e. waliau neu simneiau sydd nesaf at ei gilydd) yn hytrach na defnyddio plwm. Dechreuwyd gosod nodweddion addurniadol ar doeau o ddiwedd y 19eg ganrif ymlaen, ond nid ydynt yn nodwedd bennaf yng nghraidd hanesyddol y dref. Mae cryn dipyn o amrywiaeth yng ngoleddf adeiladau hanesyddol, gan ddibynnu ar beth oedd eu ffurf neu swyddogaeth wreiddiol. Prin y gwelir bondo ac ymylon toeau ar dalcenni yn estyn allan.

5.4.9 Os diystyrir y newidiadau diweddarach, wedyn yr arddull pennaf o ffenestr yw ffenestr godi, yn gyffredinol yn y ffurf 2 uwchben 2, gyda phaneli gwydr mwy o faint mewn adeiladau llai eu maint, ond gyda mwy o gwareli o wydr mewn adeiladau mwy o faint i gyfateb i faint yr adeiladau.

5.4.10 Mae amrywiaeth yn arddull yr agoriadau ffenestr, a'r mwyafrif yn agoriadau unionlin syml, gyda lintel garreg. Mae ffenestri wedi'u gosod yn ôl o wyneb yr adeilad. Gellir gweld ffenestri oriel a bae ar rai o'r adeiladau diweddarach.

5.4.11 Mae wynebau siop traddodiadol yn bwysig iawn i gymeriad yr ardal gadwraeth – gyda'r rhan fwyaf yn syml gyda gwaith coed wedi'i baentio a chymharol ychydig o addurniadau. Ond mae gan rai adeiladau (yn enwedig rhai godwyd tua 1900) fwy o addurniadau wedi goroesi o amgylch yr agoriadau arddangos.

5.5 Ffiniau

5.5.1 Yn yr ardal ganolog, mae'r rhan fwyaf o adeiladau'n wynebu'r ffordd yn uniongyrchol, felly nid yw waliau terfyn i'w gweld yn benodol. Fodd bynnag, lle mae'r adeiladau ymhellach oddi wrth ei gilydd, ac yn enwedig ar y ffyrdd troellog neu ar y llethrau, gellir gweld waliau o wahanol uchder (yn nodweddiadol hyd at tua 1m os yn wal derfyn yn y tu blaen). Mae'r rhain o gerrig cymharol grwn, wedi'u gosod ar ei gilydd gydag ychydig o forter neu ddim morter o gwbl.

5.5.2 Yn y tai mwy o faint ar y cyrion, mae pyst giatiau'n dod yn fwy amlwg. Mae rhai enghreifftiau o reiliau haearn bwrw hanesyddol ar ben waliau cerrig is – un o'r rhai sydd fwyaf werth ei nodi yw Bronwen Terrace, oherwydd ansawdd y gwaith metel.

45 Gwaith carreg a manylion ffenestri yng Nghrochendy Harlech

46 Wal ar Dwtil



Listed Buildings and Scheduled Monuments
1:5000 @ A4

47 Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth ac yn agos ati (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Mae'r asedau hanesyddol dynodedig (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) a ganlyn tu mewn i'r ardal gadwraeth:

6.1.1 Safle Treftadaeth y Byd – Mae'r ardal tu mewn i Ardal Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Nghymru. Dynodwyd hon gan UNESCO, ynghyd â chestyll eraill ym Miwmares, Caernarfon a Chonwy. Mae'r ardal sydd wedi'i dynodi yn Harlech yn fechan, yn cynnwys ddim ond y castell a'i domen, ond mae ei 'osodiad hanfodol' a golygfeydd allweddol wedi'u mapio a'u diogelu.

6.1.2 Henebion Cofrestredig

- *2464 Castell Harlech*

6.1.3 Adeiladau Rhestredig

- *25509 Tŷ Elor yng Nghapel Rehoboth (graddfa II) – tu allan i'r ardal bresennol*
- *25507 Bryn Tirion (graddfa II)*
- *25508 Capel Rehoboth (graddfa II) – tu allan i'r ardal bresennol*
- *25511 Coleg Harlech, yn cynnwys Waliau Cynnal Teras tua'r Gorllewin (graddfa II*)*
- *25512 Porth Llidiart, Blaengwrt a Waliau Sgrin yng Ngholeg Harlech (graddfa II)*
- *25505 Gweithdy Saer (graddfa II)*
- *25500 Castell Harlech (graddfa I)*
- *25504 Crochendy Harlech, yn cynnwys Waliau a Rheiliau'r Blaengwrt*
- *25501 Eglwys y Plwyf Sant Tanwg*
- *25503 Spar (ddim yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd)*
- *25502 Y Plas*
- *25506 Tŷ'r Felin*
- *25513 Y Wern*

6.1.4 Dynodiadau Ychwanegol Posibl.

Credir y dylid ystyried rhestru'r adeiladau a strwythurau a ganlyn ar y rhestr genedlaethol:

- *1-2 Tŷ-eiddew, Ffordd Pen Llech*

48 Castell Harlech

49 Gweithdy Saer

O gofio bod nifer o adeiladau eraill yn bodoli sy'n hŷn na'r cyfnod o ehangu'r dref ar ddiwedd y cyfnod Sioraidd / dechrau oes Fictoria, gellid ychwanegu at y rhestr pe byddai ymchwil pellach yn canfod, er enghraifft, nodweddion yn parhau i fodoli tu mewn iddynt.

6.1.5 Mae cyfres o asedau hanesyddol dynodedig (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) yn agos at yr ardal gadwraeth:

- *3198 - Pentref Hynafol Muriau'r Gwyddelod - Ardal gofrestredig fawr o tua 15 ha. Mae'n cynnwys 3 trigfan amgaeedig ac un amgaead, o leiaf dri chwt petryal, a llawer o olion o gaeau cynnar. (Heneb Gofrestredig - ar y llethr yn union tua'r dwyrain o'r dref)*
- *2482 - Trigfan Amgaeedig Cefnfilltir - gweddillion cylch cwt amgaeedig consentrig, o Oes yr Efydd neu Oes yr Haearn (Heneb Gofrestredig - ar y llethr yn union tua'r dwyrain o'r dref)*
- *2480 - Anheddiad Cynhanes a System Caeau Groes Las - cylch cwt sydd wedi'i gadw'n dda, wedi'i orchuddio'n rhannol gan gerrig oddi wrth waith clirio caeau modern. Mae tu mewn i dir wedi'i amgáu ar ffurf afreolaidd, gromlinog sy'n rhedeg o amgylch pen uchaf pant naturiol. (Heneb Gofrestredig - yn agos at y dref, ar yr ochr ddeheuol)*
- *25517 – Ysgubor tua'r de o Ael-y-Glyn (rhestredig graddfa II – ar ochr ogleddol y dref)*
- *25514 - Cae Besi (rhestredig graddfa II – ar ochr ddeheuol y dref)*
- *25518 – Beudy tua'r de o Ael-y-Glyn (rhestredig graddfa II – ar ochr ogleddol y dref)*
- *25510 – Crown Lodge (rhestredig graddfa II – ar ochr ddeheuol y dref)*
- *25515 - Pencerrig Pellaf (rhestredig graddfa II – ar ochr ddeheuol y dref)*

6.2 Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

Cafodd yr asedau hanesyddol annynodedig a ganlyn yn yr ardal gadwraeth eu pennu fel rhan o'r arfarniad hwn yn rhai o ddiddordeb lleol arbennig (gweler y cynlluniau ardaloedd cymeriad):

- *01 – Gwesty'r Queen's, Castell Morfa**
- *02 – Gorsaf Harlech**
- *03 – Isallt, Hwylfa'r Nant*
- *04 – Castle Villa, Hwylfa'r Nant*
- *05 – Godre'r Graig, Hwylfa'r Nant*
- *06 – London House / Llys Helyg, Ffordd Newydd*
- *07 – Y Branwen, Brasserie a Bar, Ffordd Newydd*

50 Y Plas

51 Plas Owain, Twtil

- *08 – Plas Owain, Twtil*
- *09 – Bron Castell, Twtil*
- *10 - Tyn y Groes, Twtil*
- *11 – Twt Hill Cottage, Twtil*
- *12 – Fair View, Twtil*
- *13 – Neuadd Goffa Harlech, Twtil*
- *14 - Toiledau Cyhoeddus a Ffynhonnell Ddŵr, Twtil*
- *15 – Cerflun y Ddau Frenin, Twtil*
- *16 – Bryn Celyn / Castle GiftShop, Sgwâr y Castell, Twtil*
- *17 – Yr Hen Farchnad Gaws, Sgwâr y Castell, Twtil*
- *18 – 1-2 Maes Cemlyn, ger Sgwâr y Castell, Twtil*
- *19 – Canolfan Ymwelwyr Castell Harlech*
- *20 – Maesgwyn, Sgwâr y Castell*
- *21 – Hufenfa'r Castell, Capel Dŵr, Sgwâr y Castell*
- *22/23 – Seasons and Reasons, Stryd Fawr / Ffordd Pen Llech*
- *24 – Castle Lodge, Ffordd Pen Llech*
- *25 – Hen Felin / The OldMill, Ffordd Pen Llech*
- *26 – Yr Hen Gwt Band, Ffordd Pen Llech*
- *27 – 1-2 Tŷ Eiddew, Ffordd Pen Llech*
- *28 – Eryri, Ffordd Pen Llech*
- *29 – Glas Cerrig / Llys Mair, Ffordd Pen Llech*
- *30 – Hedd / Castell Criws, Ffordd Pen Llech*
- *31 – Yr Odyn, Ffordd Pen Llech*
- *32 – Caereinon, Ffordd Pen Llech*
- *33 – Castle Cottage, Ffordd Pen Llech*
- *34 – Castle Court – Cornel Ffordd Pen Llech / Stryd Fawr*
- *35 – Greigmor / Caerau, Stryd Fawr**
- *36 – Capel Jerusalem, Stryd Fawr**
- *37 – Awelfryn, Stryd Fawr*
- *38 – Anwylfa / Bodlondeb / Gwynfryn, Stryd Fawr*
- *39 – Harlech Tandoori, Stryd Fawr*
- *40 – Gwesty'r Lion, Pen Dref*
- *41 – Bronallt, Pen Dref*
- *42 – Rhondda / Morlais, Pen Dref*
- *43 – Tŷ Bryn / Foelas / Annedd Bach, Pen Dref*
- *44 – 1-7 PorkingtonTerrace, Pen Dref*
- *45 – Fronhyfryd / Min y Ffordd, Pen Dref*
- *46 – Penbryn Mawr, Pen Dref*
- *47 - Pen-y-Bryn Bach, Pen Dref*
- *48 – Siambrwen, Pen Dref*
- *49 – Plas y Goits, Stryd Fawr*
- *50 - Capel Seion, Stryd Fawr*
- *51 – (Anhysbys), Stryd Fawr*
- *52 – Cae Du Designs, Stryd Fawr*

52 Yr Hen Farchnad Gaws,Sgwâr y Castell

53 Capel Seion, Stryd Fawr

- *53 – CambrianHouse, Stryd Fawr*
- *54 – (Anhysbys), Stryd Fawr*
- *55 – Fferyllfa Rowlands, Stryd Fawr*
- *56 - Cemlyn, Stryd Fawr*
- *57 – Anhysbys / Seaview / Preswylfa / Angorfa, Stryd Fawr*
- *58 - Eisteddfa, Stryd Fawr*
- *59 – Gorffwysfa , Stryd Fawr*
- *60 – Dwylan / Sŵn-y-Mor, Stryd Fawr*
- *61 – Awel y Môr, Stryd Fawr*
- *62 – Cofeb Rhyfel*
- *63 – Bronheudog*
- *64 – GwyddforHouse, Stryd Fawr*
- *65 – Tryfar House, 1 Tryfar*
- *66 – 2-4 Tryfar*
- *67 – 5-8 Tryfar*
- *68 – Derlwyn / Islwyn / Lluest, Tryfar*
- *69 – Capel Moriah, Tryfar*
- *70 – Tŷ Capel, Tryfar*
- *71 – Moriah, Tryfar*
- *72 – Rhes Bronwen*
- *73 – Y Gorlan / (Anhysbys) / Henllys / Bennar, Pentre'r Efail*
- *74 – Glasnant / Dwyfor / Heulwen, Pentre'r Efail*
- *75 – Cilan, Pentre'r Efail*
- *76 – Gerlan, Pentre'r Efail*
- *77 – Garden Cottage, Pentre'r Efail*
- *78 – Dolwar, Pentre'r Efail*
- *79 – Yr Efail, Pentre'r Efail*
- *80 – 2-4 Pentre'r Efail*
- *81 – 1 Pentre'r Efail*
- *82 – Capel Tabernacl, Stryd Fawr*
- *83 – Hen Lyfrgell a'r Institiwt*
- *84 – Byrdir House, Stryd Fawr*
- *85 – Cafn Ceffyl, Stryd Fawr*
- *86 - (Adwaenid gynt fel) Soul Food / (Adwaenid gynt fel) A&B Murphy / Bwyty'r Golden Inn, Stryd Fawr*
- *87 – Meirionfa, Stryd Fawr*
- *88 – Berwyn / Arfonia, Stryd Fawr*
- *89 – Waterloo / Isgraig / Cefn-coed, Stryd Fawr*
- *90 – (Anhysbys) Stryd Fawr / Ffordd Isaf*
- *91 – Hen feddygfa, Ffordd Isaf*
- *92 – Maelgwyn, Ffordd Isa*
- *93 – Dros y Môr / Llys Branwen, Ffordd Isaf*
- *94 – Perthi, Ffordd Isaf**
- *95 - Brynteg, Ffordd Isaf**

54 Capel Tabernacl, Stryd Fawr

55 Yr Hen Lyfrgell a'r Sefydliad, Stryd Fawr

- *96 – Canolfan Ieuenctid a Chymuned Harlech / Llyfrgell, Ffordd Uchaf*
- *97 – 7 RockTerrace, Ffordd Uchaf*
- *98 – Pengraig, Ffordd Uchaf*
- *99 – Pen-y-Garth, Pen y Graig**
- *100 – Rhes o dai yn cynnwys Bronwylfa /a Hafod, Pen y Graig**
- *101 - Arfryn, Pen y Graig**
- *102 – 1-5 Pen y Graig**
- *103 – Pencerrig, Pen y Graig**

Lle mae adeiladau wedi'u nodi gyda seren (*), maen nhw y tu allan i'r ffin bresennol ond gydag argymhelliad i'w cynnwys yn y dyfodol a chyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at osodiad yr ardal bresennol.

O ystyried y nifer uchel o adeiladau sydd o leiaf yn gan mlynedd oed ac o adeiladwaith traddodiadol, gellir dweud bod y rhan fwyaf yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal gadwraeth, felly nid yw'r rhestr hwn yn hollol gynhwysfawr, ac nid oes sicrwydd ei fod yn cynnwys pob adeilad (gan nad oedd modd gweld rhai ohonynt). Gellir felly dadlau dros gael mesurau diogelu eraill ar draws y cyfan o'r ardal gadwraeth. Gweler rhan 2.0 o'r adroddiad hwn.

56 Maelgwyn, Ffordd Isaf



Other Designations
1:5000 @ A4

57 Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth ac yn agos ati (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

7.1.1 Nid yw'n hysbys beth yw dichonoldeb archeolegol safleoedd tu mewn i'r ardal gadwraeth yn benodol. Er bod tystiolaeth gref o weithgaredd cynhanes yn yr ardal ehangach o gwmpas, cafodd yr ardal gadwraeth ei hun ei newid yn sylweddol ac mae llai o siawns fod archeoleg yn bresennol o dan y ddaear, am fod y rhan fwyaf o'r adeiladau wedi'u codi ar graig, neu ychydig yn uwch na'r graig.

7.1.2 Mae llawer o gwestiynau'n parhau heb eu hateb o ran hanes y dref yn yr oesoedd canol, ac mae'n bosibl bod tystiolaeth gudd wedi goroesi, fyddai'n darparu rywfaint o'r wybodaeth hon. Ardal Ffordd Pen Llech yw'r un fwyaf debygol o ran canfod dichonoldeb archeolegol pellach. Bu rywfaint o ymchwilio yn barod yn 1-2 Tŷ-Eiddew sydd wedi datgelu strwythur y to, ond mae tystiolaeth lafar yn y dref yn awgrymu y gallai fod nodweddion anghyffredin eraill yn bresennol. Mae hefyd adroddiadau y defnyddiwyd tir gerllaw fel man claddu, efallai'n gysylltiedig â defnyddio Tŷ-Eiddew fel capel.

7.1.3 Mae hefyd yn bosibl bod yr Hen Felin, tu ôl i Dŷ-Eiddew, o ddiddordeb hanesyddol gan yr ymddengys ei fod yr un adeilad (er gyda newidiadau mawr) ag a ddangosir mewn paentiad gan Paul Sandby o tua 1779.

7.1.4 Gallai'r defnydd o gerrig mawr ac afreolaidd yn rhan isaf adeiladau ddangos eu bod yn deillio o adeg gynharach. Yn yr un modd, gallai fod elfennau hanesyddol mewn adeiladau sydd wedi'u rendro (a nawr yn ymddangos yn fodern). Pe cai'r nodweddion hynny eu datgelu byddai'n cyfrannu at ddealltwriaeth o hanes y dref.

8.0 Asedau Dynodedig Eraill

8.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

8.1.1 Mae'r ardal gadwraeth yn agos at SoDdGA Morfa Harlech. Mae'r ardal hefyd yn rhan o Ardal o Gadwraeth Arbennig (ACA) Morfa Harlech a Morfa Dyffryn - safle a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o rwydwaith Natura 2000.

58 Darlun o tua 1795 gan John Ingleby

59 Darlun o tua 1845 gan Walter Crane

8.2 Gorchmynion Cadw Coed

8.2.1 Yr unig Orchmynion Cadw Coed yn yr Ardal Gadwraeth yw ar gyfer grŵp o bedair coeden unigol tua'r gogledd a'r dwyrain o Eglwys Sant Tanwg. Gellir gweld y rhain ar Ffigwr 18.

8.3 Tirwedd Hanesyddol Ddynodedig

8.3.1 Mae'r dref o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Ardudwy. Mae'r Rheswm dros Ddynodi'n cynnwys cyfeiriad at fryngaerau oes haearn a systemau caeau ac adeiladau canoloesol ger y dref.

8.4 Dynodiadau Eraill

8.4.1 Mae ardaloedd eraill o goetir hynafol dynodedig gerllaw.

60 Y-Wern

9.0 Bioamrywiaeth

9.1 Coed

9.1.1 Gweler 8.3 ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

9.1.2 Gweler 4.3 ar gyfer disgrifiad o goed / ardaloedd o goed allweddol yn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

9.2 Rhywogaethau a Warchodir.

9.2.1 Mae'n hysbys bod nifer o rywogaethau a warchodir yn bresennol yn ac o gwmpas Harlech, yn enwedig yn ardal SoDdGA'r Morfa. Mae'r rhain yn cynnwys planhigion, pryfed ac adar.

YR AIL RAN – CYNLLUN RHEOLI'R ARDAL GADWRAETH

1.0 Crynodeb Dadansoddiad

CRYFDERAU

- Castell o bwysigrwydd rhyngwladol
- Sefyllfa o fewn Safle Treftadaeth y Byd
- Niferoedd o bobl o gwmpas a phoblogrwydd
- Gosodiad da yn y dirwedd
- Canran uchel o adeiladau traddodiadol
- Cymeriad cydlynol
- Gorsaf rheilffordd a chysylltiadau
- Ecoleg a bioamrywiaeth

GWENDIDAU

- Mynediad yn anodd i gerbydau o gwmpas canol y dref am fod y strydoedd yn serth a chul a/neu yn droellog
- Y ffordd o ddod at y dref o'r orsaf yn wael
- Dibyniaeth ar dwristiaeth dymhorol
- Diddordeb 'treftadaeth' y dref yn canolbwyntio bron yn llwyr ar y castell
- Ansawdd sylfaenol ac ymddangosiad gwael llawer o adeiladau ar y prif lwybr i mewn i'r dref ar Ffordd Newydd o'r gogledd



CYFLEOEDD

- Defnyddio'r Safle Treftadaeth y Byd i annog buddsoddiad ac ariannu
- Rhestru adeiladau allweddol a diogelu rhai eraill yn well
- Defnyddio technolegau cynaliadwy mewn ffyrdd sensitif lle bo'n briodol
- Ehangu'r diddordeb treftadaeth i fwy o safleoedd hanesyddol
- Gwella bioamrywiaeth tu mewn i'r pentref ac mewn ardaloedd oddi amgylch
- Gwella rheolaeth ar ddatblygiad yn yr ardal gadwraeth ac o'i chwmpas
- Gwella gosodiad y castell ar yr ochr ogleddol a'r ochr orllewinol, a gwella cysylltiadau o'r orsaf

BYGYTHIADAU

- Lefel gynyddol o newid amhriodol (e.e. ffenestri plastig, deunyddiau to, ychwanegiadau ansensitif), sy'n fygythiad i gymeriad cynhenid y pentref
- Cyflwr Safle Coleg Harlech a diffyg defnydd ohono
- Wrth i adeiladau ddod yn ddrutach a mwy dymunol, gallai fod cynnydd mewn pwysau am newid
- Lefel o bwysau oddi wrth draffig a thwristiaeth
- Diffyg rheolaeth dros fanylion wrth newid adeiladau sy'n bodoli'n barod a datblygiadau newydd

2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Harlech wedi cadw llawer o'i chymeriad arbennig – gyda'i chymysgedd o adeiladau canoloesol, Sioraidd, Fictoraidd ac Edwardaidd, wedi'u hadeiladu'n bennaf o ddeunyddiau traddodiadol a lleol.

2.1.2 Bydd pwysau gydol yr amser am ddatblygiad a newid i'r adeiladau presennol. Mae swm sylweddol o'r manylion gwreiddiol yn parhau ar hyn o bryd.

2.1.3 Mae'r rhan fwyaf o adeiladau mewn meddiant neu'n cael eu defnyddio mewn ffordd fuddiol, er bod newid yn digwydd mewn meddiannaeth manwerthu / masnachol y gallai fod wedi'i yrru ymlaen gan ansicrwydd y pandemig covid-19.

2.1.4 Mae rhai materion sy'n cael effaith niweidiol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Dyma enghreifftiau ohonynt:

- Tynnu ymaith waith coed, ffenestri a drysau hanesyddol a rhoi rhai modern yn eu lle, sy'n gyffredinol wedi'u gwneud o UPVC.
- Datblygiadau neu estyniadau sy'n amhriodol neu o ansawdd gwael.
- Rendrad neu gerrig chwipio dros waith carreg.
- Cerbydau, parcio a thraffig yn cael gormod o ddylanwad.

2.1.5 Dyma rai enghreifftiau penodol:

- Cafodd Castle Cottage ei newid i'r fath raddau nes ei bod yn anodd gweld ei ffurf wreiddiol, oherwydd estyniadau mawr ar y llawr daear a ffenestri newydd.
- Mae'r adeilad ar gornel Ffordd Pen Llech a'r Stryd Fawr wedi colli ei statws cynharach fel canolbwynt da ar gyfer un pen o'r fista, am ei fod wedi colli manylion pensaernïol a chael cerrig chwipio arno, nad ydynt yn ddeniadol.

61 Castle Cottage

62 Adeilad wedi'i newid yn sylweddol, ar gornel Ffordd Pen Lech a'r Stryd Fawr

2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Gan fod y dref mor boblogaidd fel cyrchfan ymwelwyr, mae'r adeiladau'n ddymunol i bobl, sy'n gostwng y posibilrwydd y gallent fod heb eu defnyddio am gyfnodau hir a mynd i ddadfeilio. Fodd bynnag, y perygl mwyaf yw oddi wrth foderneiddio a gwaith trwsio annoeth lle nad yw pwysigrwydd yr adeilad yn amlwg neu'n gwbl hysbys. Y rhai sydd mewn mwyaf o berygl yw adeiladau sydd heb eu rhestru ond o bwysigrwydd mawr oherwydd eu hoed, cysylltiadau hanesyddol neu nodweddion anghyffredin.

2.2.2 Mae'n hysbys bod 1-2 Tŷ-Eiddew yn un o adeiladau cynharach y dref a bod ganddo goed o'r oesoedd canol yn y to yn ogystal ag y gallai fod ganddo nodweddion mewnol yn gysylltiedig â ffyrdd cynharach o'i ddefnyddio. Fodd bynnag, nid yw'r adeilad yn tynnu sylw wrth edrych o'r tu allan ac mae'n amlwg bod problemau gyda chyflwr y to, felly bod perygl y gellid yn anfwriadol golli rywfaint o'i ddiddordeb arbennig.

2.2.3 Ar adeg ysgrifennu hwn, mae dyfodol safle Coleg Harlech yn parhau'n aneglur - ni chafodd ei ddefnyddio ers tua phum mlynedd ac mae ei gyflwr yn dirywio. Mae'n adeilad rhestredig ac yn nodwedd bwysig yn lleol sy'n effeithio lawer ar osodiad gweledol y dref. Ond mae'n safle cymhleth o ran y cyfyngiadau sydd eu hangen i gadw ei nodweddion pwysicaf (a hynny'n cyfyngu ar y defnydd a ellid ei wneud ohono) a faint o fuddsoddiad fyddai ei angen oherwydd ei faint.

63 1-2 Tŷ-Eiddew (IvyCottages)

64 Theatr Harlech, rhan o safle Coleg Harlech

3.0 Golwg Gyffredinol ar y Dadansoddiad CCGB

3.1.1 Cynhaliwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Ardal Gadwraeth Harlech. Defnyddir hwnnw i ganfod beth yw'r problemau, a hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Bydd wedyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer creu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

3.1.2 Mae'r dadansoddiad CGCB yn dangos nifer o bwyntiau allweddol ar gyfer gweithredu, i adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rheiny'n cynnwys:

- Defnyddio'r Safle Treftadaeth y Byd i annog buddsoddiad ac ariannu
- Rhestru adeiladau allweddol a diogelu rhai eraill yn well
- Defnyddio technolegau cynaliadwy mewn ffyrdd sensitif lle bo modd

- Ehangu'r diddordeb treftadaeth i fwy o safleoedd hanesyddol
- Gwella rheolaeth ar ddatblygiad yn yr ardal gadwraeth ac oddi amgylch
- Gwella gosodiad y castell ar yr ochr ogleddol a'r ochr orllewinol, a gwella cysylltiadau o'r orsaf
- Cefnogi adfer manylion traddodiadol i adeiladau a gwella mewn ffordd gynaliadwy, i wella perfformiad amgylcheddol
- Canfod defnydd newydd addas ar gyfer capeli nad oes eu hangen mwyach, a galluogi diogelu a gwella eu pwysigrwydd
- Sicrhau diogelu'r manylion gwreiddiol pwysig sy'n parhau i fodoli yn yr Ardal Gadwraeth, trwy ddefnyddio rheolaeth well ar ddatblygiad (cyfarwyddiadau erthygl 4)

3.1.3 Mae'r CCGB yn nodi nifer o wendidau a bygythiadau, sy'n cael eu dangos fel camau gweithredu, gyda'r rheiny'n cynnwys:

- Ceisio ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol i ddadwneud newidiadau niweidiol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Sicrhau diogelu mannau gleision a golygfeydd allweddol trwy ymgysylltu lleol ac wrth ystyried ceisiadau i ddatblygu.
- Gwella'r ffordd wael o ddod at y dref o'r orsaf, ac ymddangosiad adeiladau ar y brif ffordd i mewn ar Ffordd Newydd, yn cynnwys Gwesty'r Queen's.
- Lleihau'r ddibyniaeth ar dwristiaeth dymhorol trwy annog atyniadau sy'n gweithredu gydol y flwyddyn ac o ddiddordeb i bobl leol.
- Annog yn gryf cael ffordd briodol a buan o ailddefnyddio Safle Coleg Harlech.

65 Golygfa ar draws Ffordd Newydd

66 Gwesty'r Queen's

4.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

4.1 Newidiadau i'r Ffiniau.

4.1.1 Bwriedir estyn yr ardal gadwraeth i gynnwys rhan fechan tua'r gogledd o'r castell. Byddai hynny'n gymorth i gadw'r golygfeydd wrth ddod i mewn i'r dref ar y prif lwybrau i mewn, ar y briffordd a'r rheilffordd, yn ogystal â gosodiad y castell a'r Safle Treftadaeth y Byd. Byddai'n cynnwys Gwesty'r Queen's a Gorsaf Harlech. Mae ffurf y ddau adeilad yma'n parhau heb gael ei amharu arno, ac maen nhw'n bwysig fel atgof o gyfnod o dwf ac ehangu yn y dref, er y digwyddodd newidiadau braidd yn ansensitif (ond cymharol arwynebol) i'r ddau adeilad hyn yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf.

4.1.2 Cynghorir hefyd ehangu mewn ardal tua'r de-ddwyrain fyddai'n cynnwys Capel Rehoboth. Er bod hwn wedi'i restru fel graddfa II erbyn hyn, mae'n nodwedd bwysig o olygfeydd o'r dref a hefyd yn cynnig beth ellid ei ddadlau yw rhai o'r golygfeydd gorau o'r castell. Hefyd yn yr ardal hon byddai Tŷ Crwn a Thŷ Clyd, sy'n enghreifftiau ardderchog a chymharol gyfan o dai ar eu pennau eu hunain gyda lefel uchel o ddiddordeb pensaernïol.

4.1.3 Byddai estyniad arall tua'r de yn diogelu'r tai mawrion unigol ar hyd Ffordd Isaf a hefyd y tai hanesyddol ar Ben y Graig.

4.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

4.2.1 Mae'r cefndir o fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen ragarweiniol **Introduction to Conservation Areas for the 21st Century.** Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi canllawiau a pholisïau cyffredinol.

4.2.2 Mae'n cael ei argymell bod cyfarwyddyd erthygl 4 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ardal gadwraeth Harlech. Mae'r dref wedi'i chadw'n dda ar y cyfan ac mae cyfle i gyfyngu ar newid amhriodol pellach, ac ar dynnu ymaith ffenestri hanesyddol / saernïaeth ac ar rendro dros waith cerrig.

4.2.3 Fel sy'n cael ei nodi yn 6.1 o'r Asesiad Ardal Gadwraeth, mae'n cael ei argymell yn gryf y dylid ystyried cynnwys 1-2 Tŷ-eiddew ar y rhestr genedlaethol, ynghyd ag unrhyw adeiladau pellach gyda swm sylweddol ynddynt o ddeunydd o cyn 1800 (h.y. yn amodol ar ymchwilio ymhellach).

67 Tŷ hanesyddol ar Ben y Graig

68 Capel Rehoboth

4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

4.3.1 Gellid gwella ei diddordeb arbennig yn sylweddol trwy roi sylw i rai o'r materion, a gwendidau a bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth (gweler 2.0). Gellid gwneud hynny trwy estyn pwerau neu ganllawiau cynllunio.

4.3.2 Dyma rai o'r materion penodol sydd angen sylw yn Ardal Gadwraeth Harlech:

- Posibilrwydd o ddefnyddio mesurau rheoli datblygiad (cyfarwyddyd erthygl 4) i reoli colli manylion a nodweddion saernïaeth hanesyddol
- Ystyried briffiau dylunio neu ganllawiau pellach i sicrhau bod safle Coleg Harlech, nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach, yn cael ei addasu mewn ffordd sensitif ar gyfer defnydd newydd.
- Targedu adeiladau allweddol ar gyfer gwelliannau lle maen nhw'n cael effaith fawr ar gymeriad yr ardal gadwraeth, fel yr un ar gornel Ffordd Pen Llech a'r Stryd Fawr.
- Annog adfer manylion saernïaeth mwy priodol i adeiladau sydd o bwysigrwydd lleol, yn hytrach na'r rhai UPVC a osodwyd yn lle rhai cynharach.

4.3.3 Cynigir y dylid darparu **canllawiau dylunio** er mwyn deall ac annog newid priodol yn yr ardal gadwraeth. Dylai hynny gynnwys:

- Manylion priodol ar gyfer ffenestri, drysau a saernïaeth newydd.
- Canllawiau ar ffyrdd priodol o drwsio a chynnal gwaith cerrig.
- Graddfa, crynswth a deunyddiau adeiladau newydd ac estyniadau.
- Parcio, wynebau, plannu ac ystyriaethau ecolegol.

4.3.4 Gan ddefnyddio'r arfau uchod a thrwy ymgynghori (gweler isod), cynyddu ymwybyddiaeth a phroffil yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygiad a newid priodol. Hynny'n cynnwys:

69 Tŷ Clyd

70 Mynedfa fodern ar Ganolfan Ymwelwyr y Castell

- Ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a chymuned Harlech.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) sgiliau contractwyr a chrefftwyr lleol.

4.4 Cynaliadwyedd a gwella Amgylcheddol

4.4.1 Mae dogfen ar gael sy'n darparu canllawiau ar y ffordd iawn o wneud gwelliannau amgylcheddol, a'r caniatadau fydd eu hangen, yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, sef: **Advice on Energy Efficiency Measures in Conservation Areas (Planning & Practical Guide).**

4.4.2 Byddai gan Harlech rai cyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu micro-bŵer. Ond cai hynny ei gymhlethu gan yr angen hanfodol i ddiogelu gosodiad y Castell a'r Safle Treftadaeth y Byd - byddai'n annhebyg y ceid cymeradwyaeth i unrhyw newid fyddai'n effeithio ar olygfeydd allweddol neu osodiad hanfodol y Safle Treftadaeth y Byd.

4.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau i gynhyrchu ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth, ei hadeiladau rhestredig neu'r Safle Treftadaeth y Byd.

4.5 Bioamrywiaeth

4.5.1 Mae coed yn hanfodol bwysig i fioamrywiaeth ac o bwys yn esthetig yn yr ardal gadwraeth. Mae ychydig goed wedi'u diogelu gan orchmynion cadw coed (gweler 8.3). Mae coed eraill wedi'u nodi fel rhai o bwys yn yr ardal gadwraeth (gweler 4.3).

4.5.2 Mae cyfle sylweddol i ehangu bioamrywiaeth yn yr ardal gadwraeth, a dyma enghreifftiau o beth ellid ei wneud:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun i reoli blychau.
- Gellir gwella cynefinoedd bywyd gwyllt trwy wneud defnydd priodol o doeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill ar estyniadau neu adeiladau newydd, lle bo hynny'n briodol i'r dreftadaeth adeiledig
- Diogelu coed yn ystod gwaith adeiladau

71 Yr olygfa o Gapel Rehoboth

72 Yr olygfa wrth ddynesu o'r de

- Peidio ymyrryd, er mwyn caniatáu i goed aeddfedu
- Gadael pren marw sy'n sefyll a chreu tomenni o bren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.

4.5.3 Sicrhau bod datblygiad yn digwydd ar sail gwybodaeth am, ac mewn cydymdeimlad gydag, ardaloedd cymeriad unigryw'r Ardal Gadwraeth a'i fod yn cymryd i ystyriaeth dystiolaeth arall o gymeriad hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd yr ardal o gwmpas

4.5.4 Sicrhau y bydd cynigion datblygu'n gwella'r diddordeb bioamrywiaeth ac amrywiaeth daearegol.

4.5.5 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithrediad prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd sydd o werth ar gyfer cadwraeth natur.

4.5.6 Annog bod datblygiad yn cynnwys mesurau i gyfrannu'n gadarnhaol ar fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal

4.5.7 Gwella isadeiledd gwyrdd mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal, heb gael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth yr ardal neu gymeriad yr ardal gadwraeth.

5.0 Ymgynghoriad

5.1.1 Fe ymgynghorwyd fel a ganlyn ar yr Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth drafft:

- Cyngor Cymuned Harlech (04/04/2022)

73 Darlun gan WH Bartlett / R Wallis 1841-2



Proposed Extension to Conservation Area
1:5000 @ A4

74 Newid Arfaethedig i Ffin yr Ardal Gadwraeth (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403))

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth o ddeunydd wedi'i gyhoeddi a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Arfarniad hwn:

Fenton, R. (1810), *Toursin Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan Gymdeithas Archeolegol Cymru yn 1917)

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (YaleUniversityPress, Llundain)

Lewis, S. (1849), *A TopographicalDictionary of Wales* (Llundain)

Roscoe, T. (1853), *WanderingsandExcursionsin North Wales* (Llundain)

Smith, B. &Neville George, T. *British RegionalGeology – North Wales (Gwasg Ei Mawrhydi) 1961.*

Blaenoriaethau Strategol Harlech – Adroddiad Drafft Llinell Sylfaen, Cyngor Gwynedd (Gorffennaf 2017)

Datganiad Ardal Gadwraeth Harlech (Drafft)

Urban Characterisation: Harlech, Adroddiad Rhif. 787 Mawrth, 2009 (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd)

Cynllun Strategol Harlech, (Gorffennaf 2017)

Cynllun Rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd (2017)

Cynllun Gweithredu'r Safle Treftadaeth y Byd (2017)